Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil Gymdeithasol Rhif:

73/2017

Dyddiad cyhoeddi:

29 Tachwedd 2017

# Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad interim

## Diweddariad ar yr enghraifft Isafbris Uned o 50c

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-016-7

Teitl: Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad interim
Isdeitl: Diweddariad ar yr enghraifft Isafbris Uned o 50c

Awduron: Colin Angus, John Holmes, Alan Brennan a Petra Meier
Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield
Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig
Prifysgol Sheffield

Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. & Meier, P. (2017). *Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad interim Isdeitl: Diweddariad ar yr enghraifft Isafbris Uned o 50c*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 73/2017.
Ar gael ar: http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o fanylion cysylltwch â:
Janine Hale
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6539
E-bost: janine.hale@llyw.cymru

*Caiff y rhan fwyaf o'r deunydd sy'n ymddangos ar y wefan hon ei ddiogelu gan hawlfraint y Goron.*

*Cewch ddefnyddio neu ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos ar y wefan hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r **Drwydded Llywodraeth Agored**.*

*Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored (http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3), ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Os bydd unrhyw un o'r eitemau ar y safle hwn sydd dan hawlfraint y Goron yn cael ei hailgyhoeddi neu ei chopïo ar gyfer pobl eraill, rhaid nodi ffynhonnell y deunydd a chydnabod y statws o ran hawlfraint (er enghraifft, Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2012). Rydym yn eich annog hefyd i greu hyperddolenni at y wefan hon.*

*Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn cynnwys unrhyw ddeunydd ar y safle hwn y nodwyd bod gan drydydd parti hawlfraint arno. Byddai angen cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint honno i atgynhyrchu deunydd o'r fath.*

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn Eiddo Deallusol i Brifysgol Sheffield

# Tabl Cynnwys


Geirfa ....... 3
Cyflwyniad ....... 4
Data ....... 4
- Data ar y boblogaeth ....... 4
- Data ar yfed alcohol ....... 4
- Data ar bris alcohol ....... 4
- Elastigeddau prisiau ....... 5
- Data ar farwolaethau ....... 5
- Data ar forbidrwydd ....... 6
- Data ar gostau gofal iechyd ....... 6

Canlyniadau ....... 7
- Llinell sylfaen yfed a phrynu alcohol ....... 7
- Llinell sylfaen y marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol ....... 13
- Effeithiau a fodelir isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant ....... 17
- Effeithiau a fodelir isafbris uned o 50c ar iechyd ....... 21

Y camau nesaf: ....... 27
Cyfeiriadau ....... 28

# Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
| --- | --- |
| Yfwyr cymedrol | Pobl sy’n yfed yn unol â’r hyn a argymhellir yng nghanllawiau presennol y Deyrnas Unedig, sef 14 uned yr wythnos |
| Yfwyr peryglus | Pobl sy’n yfed mwy na’r hyn a argymhellir yng nghanllawiau presennol y Deyrnas Unedig, ond sy’n yfed llai na 50 uned yr wythnos i ddynion, neu 35 i fenywod |
| Yfwyr niweidiol | Pobl sy’n yfed mwy na 50 uned yr wythnos i ddynion neu 35 i fenywod |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) | Mesur cyfansawdd lefel ardal fach o amddifadedd economaidd-gymdeithasol sy’n cyfrifo lefelau lleol o incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. |
| Mewnfasnach | Mannau lle caiff alcohol ei werthu i’w yfed yn y fangre, e.e. tafarnau a bwytai |
| Allfasnach | Mannau lle caiff alcohol ei werthu i’w yfed i ffwrdd o’r fangre, e.e. siopau ac archfarchnadoedd |
| Cyflyrau iechyd sy’n gysylltiedig ag alcohol | Cyflyrau iechyd y mae yfed alcohol yn cynyddu (neu’n lleihau) risg marwolaeth a/neu dderbyniad i ysbyty ohonynt[1] |

[1] Nodwch nad yw’r diffiniad hwn yr un peth â diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ‘Farwolaethau sy’n Gysylltiedig ag Alcohol’ sydd wedi cael ei ddiwygio yn ddiweddar [9]

# Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2017, cafodd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i fodelu effaith bosibl polisi Isafbris Uned am alcohol a sut y gallai hyn gymharu â chodi'r doll ar alcohol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar waith modelu blaenorol a wnaethpwyd gan y Grŵp yn 2014[1] ac yn golygu addasu Model Polisi Alcohol Sheffield v3.5 (SAPM) i Gymru.

Y cwestiynau ymchwil penodol i gael sylw yw:

1. Defnyddio data newydd a dulliau modelu newydd i ddarparu amcangyfrifon newydd o effaith isafbris uned (ar lefau sy'n codi fesul 5c o 35c i 70c) ar ganlyniadau o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed, gwariant, iechyd, troseddu a'r gweithle, a sut y bydd yr effeithiau hyn yn amrywio ar draws gwahanol lefelau yfed ac amddifadedd.
2. Pennu'r cynnydd cyfrannol yn y doll ar alcohol y byddai ei angen i gyflawni'r un lleihad o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol (y rheiny sy'n yfed mwy na 14 uned yr wythnos i ddynion a menywod) ag isafbris uned o 50c, a dangos sut y mae effeithiau'r ddau bolisi hyn (isafbris uned a chodi'r doll) wedi'u dosbarthu'n wahanol ar draws y boblogaeth.
3. Pennu'r cynnydd cyfrannol yn y doll ar alcohol y byddai ei angen i gyflawni'r un lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol ag isafbris uned o 50c, a dangos y gwahaniaethau o ran dosbarthiad yr effeithiau ar draws y boblogaeth.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi canlyniadau rhagarweiniol o'r gwaith modelu mewn perthynas â chwestiwn 1, gan ganolbwyntio ar isafbris uned o 50c fel enghraifft, er mwyn hwyluso cymhariaeth ag adroddiad 2014, ac ar ganlyniadau iechyd yn unig.

# Data

Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn cyfosod data o amrywiaeth fawr o ffynonellau. Nodir y rhain yn fyr isod:

## Data ar y boblogaeth

Cafwyd data ar nifer yr oedolion (18 oed a hŷn) oedd yn byw yng Nghymru yn 2016 yn ôl oedran (mewn blynyddoedd unigol), rhyw ac amddifadedd (wedi'i fesur yng nghwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Data ar yfed alcohol


Cafwyd data hunan-gofnodedig ar yfed alcohol ar lefel unigolion i Gymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17.

## Data ar bris alcohol


Cafwyd data hunan-gofnodedig ar brynu alcohol ar lefel trafodion unigol i Gymru a Lloegr (gan nad oedd sampl Cymru yn unig yn ddigon mawr) o Arolwg Costau Byw a Bwyd (cyfun) 2010-14, wedi'u chwyddo i brisiau 2016 gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant penodol i alcohol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd darparodd Llywodraeth Cymru ddata ar brisiau allfasnach ar gyfer 2016 oddi wrth The Nielsen Company. Mae'r data hyn, ar gyfer rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, yn rhoi cyfanswm cyfaint yr alcohol a werthwyd ar bob pwynt pris ar gyfer pob math o ddiod. Defnyddiwyd y data hyn i galibradu data'r Arolwg Costau Byw a Bwyd er mwyn sicrhau bod y dosbarthiadau prisiau canlyniadol yn cyd-fynd â phrisiau'r gwerthiannau a gofnodwyd.

**Ffigur 1: Dosbarthiadau cronnol prisiau a dalwyd am alcohol yn ôl sianel a math o ddiod (Arolwg Costau Byw a Bwyd 2010-14 a Nielsen 2016)**

**Allfasnach**




**Mewnfasnach**




## Elastigeddau prisiau

Cafodd elastigeddau prisiau, sy'n amcangyfrif y newid cyfrannol o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed yn dilyn newid cyfrannol ym mhrisiau alcohol, eu cymryd o amcangyfrifon cyhoeddedig a gafwyd gan ddefnyddio data o Gymru a Lloegr [2].

## Data ar farwolaethau

Cafwyd cofnodion marwolaethau ar gyfer 43 o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac ar gyfer yr holl achosion eraill wedi'u cyfuno, i Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2014-16 oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cafodd y ffigurau hyn eu rhannu yn ôl grŵp oedran (18-24, 25-34, 35-54, 55 a hŷn), rhyw a chwintelau MALIC.

## Data ar forbidrwydd

Cafwyd cofnodion derbyniadau i ysbytai, wedi’u cywiro am ail-dderbyniadau’r un unigolion yn yr un flwyddyn, ar gyfer 43 o gyflyrau iechyd sy’n gysylltiedig ag alcohol i Gymru ar gyfer y blynyddoedd 2014-16 oddi wrth Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru. Hefyd dadansoddwyd yr un data i greu amcangyfrifon o nifer gyfartalog y derbyniadau i ysbyty mewn blwyddyn i unigolyn â phob un o’r 43 o gyflyrau iechyd oedd wedi’u cynnwys yn y model

## Data ar gostau gofal iechyd

Cafodd amcangyfrifon o’r costau blynyddol cyfartalog i’r GIG sy’n gysylltiedig â phob un o’r 43 o gyflyrau iechyd a fodelwyd eu cymryd o ffigurau cyhoeddedig [3], wedi’u chwyddo i brisiau 2016 gan ddefnyddio mynegai Gwasanaethau Iechyd Ysbyty a Chymunedol yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol [4].

# Canlyniadau

## Llinell sylfaen yfed a phrynu alcohol

Mae Tabl 1 yn dangos bod ychydig llai na 2 filiwn o oedolion yng Nghymru sy'n yfed alcohol, a bod pob un yn yfed 610 o unedau ac yn gwario £607 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae bron tri chwarter yr yfwyr hyn yn yfed yn unol â'r hyn a argymhellir yng nghanllawiau Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig, sef 14 uned yr wythnos. Fodd bynnag, mae 24% o yfwyr yn yfed ar lefelau a allai fod yn beryglus (14-50 uned yr wythnos i ddynion a 14-35 i fenywod), ac mae mwy na 4% yn yfwyr niweidiol (mwy na 50 uned yr wythnos i ddynion a 35 i fenywod). Mae'r yfwr niweidiol cyfartalog yn yfed 3,924 o unedau'r flwyddyn, sy'n cyfateb i oddeutu 30 peint o gwrw neu 8 potel o win yr wythnos, ac yn gwario bron £2,900 y flwyddyn ar alcohol.

**Tabl 1:Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl math o yfwyr**

| | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth yfwyr** | 1,910,072 | 1,379,341 | 449,339 | 81,392 |
| **% o'r holl yfwyr** | 100.00% | 72.21% | 23.52% | 4.26% |
| **Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)** | 610 | 211 | 1,236 | 3,924 |
| **Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn** | £607 | £276 | £1,209 | £2,882 |

Rhoddir ffigurau cyfatebol yn dangos amrywiant yfed ar draws cwintelau amddifadedd yn Tabl 2. Mae'r rhain yn dangos bod pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ymatal rhag yfed yn llwyr; mae bron 27% o'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig, o gymharu â 14% yn y cwintel lleiaf difreintiedig, yn peidio ag yfed. Ymysg y rheiny sy'n yfed, mae'r rheiny mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn yfed llai ar gyfartaledd (546 o unedau'r flwyddyn o gymharu â 648 yn y cwintel lleiaf difreintiedig) ac yn gwario cryn dipyn yn llai (£441 y flwyddyn o gymharu â £780 y flwyddyn).

**Tabl 2: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl cwintel MALIC**

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth yfwyr** | 428,613 | 406,718 | 406,692 | 361,987 | 306,062 |
| **Cyfradd ymatal** | 13.9% | 18.9% | 19.4% | 20.7% | 26.7% |
| **Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)** | 648 | 649 | 598 | 589 | 546 |
| **Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn** | £780 | £676 | £563 | £515 | £441 |

Yn olaf, mae Tabl 3 yn dangos sut mae effeithiau lefel yfed ac amddifadedd a nodir yn Tabl 1 a Tabl 2 yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae hyn yn dangos, ymysg yfwyr cymedrol, fod y rheiny yn y grwpiau mwyaf difreintiedig yn gyfran lai o'r holl yfwyr, oherwydd cyfraddau uwch o ymatal rhag yfed, yn yfed llai ar gyfartaledd (194 o unedau'r flwyddyn o gymharu â 231 yn y cwintel lleiaf difreintiedig) ac yn gwario llai (£198 y flwyddyn o gymharu â £375). Ymysg yfwyr niweidiol, unwaith eto gwelwn fod y grwpiau mwyaf difreintiedig yn gyfran lai o'r cyfanswm, ond mae'r 0.6% hyn o'r boblogaeth yn yfed mwy yn sylweddol ar gyfartaledd na'r rheiny mewn grwpiau llai


difreintiedig (4,367 o unedau'r flwyddyn o gymharu â 3,892 yn y grŵp lleiaf difreintiedig) ond yn gwario llai (£2,715 y flwyddyn o gymharu â £3,060).

**Tabl 3: Llinell sylfaen nodweddion yfwyr yn ôl math o yfwr a chwintel MALIC**

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cymedrol** | | |
| **Poblogaeth yfwyr** | 297,937 | 286,322 | 290,248 | 266,503 | 238,332 |
| **% o'r holl yfwyr** | 15.6% | 15.0% | 15.2% | 14.0% | 12.5% |
| **Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)** | 231 | 211 | 213 | 200 | 194 |
| **Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn** | £375 | £296 | £265 | £228 | £198 |
| | | | **Peryglus** | | |
| **Poblogaeth yfwyr** | 112,441 | 102,031 | 99,177 | 80,181 | 55,509 |
| **% o'r holl yfwyr** | 5.9% | 5.3% | 5.2% | 4.2% | 2.9% |
| **Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)** | 1,228 | 1,245 | 1,262 | 1,219 | 1,216 |
| **Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn** | £1,483 | £1,209 | £1,117 | £1,099 | £981 |
| | | | **Niweidiol** | | |
| **Poblogaeth yfwyr** | 18,234 | 18,365 | 17,267 | 15,304 | 12,221 |
| **% o'r holl yfwyr** | 1.0% | 1.0% | 0.9% | 0.8% | 0.6% |
| **Llinell sylfaen yr alcohol mae pob yfwr yn ei yfed bob blwyddyn (unedau)** | 3,892 | 4,168 | 3,244 | 4,081 | 4,367 |
| **Llinell sylfaen gwariant pob yfwr bob blwyddyn** | £3,060 | £3,646 | £2,380 | £2,455 | £2,715 |


Rhoddir crynodeb o batrymau poblogaeth o ran yfwyr, faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant ar alcohol yn Ffigur 2. Mae hyn yn dangos, er bod yfwyr peryglus a niweidiol gyda'i gilydd yn 22% o'r holl boblogaeth (oddeutu 28% o'r boblogaeth yfwyr), maent yn yfed 75% o'r alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru, ac yn gyfrifol am 67% o'r holl wariant arno.

## Ffigur 2: Dosbarthiad y boblogaeth, alcohol a gaiff ei yfed a gwariant yn ôl math o yfwr





Yn ogystal ag amrywio o ran faint maent yn ei yfed, mae'r rheiny sydd mewn grwpiau yfwyr gwahanol yn yfed cynhyrchion gwahanol. Mae yfwyr cymedrol yn yfed cyfran fwy o'u halcohol fel gwirodydd a gwin, ond mae yfwyr trymach yn yfed mwy o seidr, fel y dangosir yn Ffigur 3. Mae yfwyr trymach hefyd yn yfed cyfran fwy o'u halcohol yn yr allfasnach yn hytrach na'r fewnfasnach (h.y. alcohol a brynir o siopau ac archfarchnadoedd, yn hytrach nag mewn tafarnau a bwytai), fel y dangosir yn Ffigur 4, er bod yr holl yfwyr yn yfed y rhan fwyaf o'u halcohol yn yr allfasnach, ar gyfartaledd.

## Ffigur 3: Dewisiadau o ran diodydd yn ôl math o yfwr




**Ffigur 4: Dewisiadau o ran sianel yn ôl math o yfwr**





Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd yn y prisiau mae'r rheiny mewn grwpiau gwahanol yn eu talu am eu halcohol; mae yfwyr trwm, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, fel arfer yn talu llai am bob uned maent yn ei hyfed. Mae'r patrymau hyn, a ddangosir yn Ffigur 5 a Ffigur 6, yn rhannol oherwydd bod yfwyr yn y grwpiau hyn yn yfed mwy o'u halcohol yn yr allfasnach, lle mae prisiau fel arfer yn is, ac yn rhannol oherwydd bod yr yfwyr hyn yn prynu cynhyrchion rhatach.

**Ffigur 5: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod ac yfwr**



### Ffigur 6: Prisiau cyfartalog a delir yn ôl math o ddiod a chwintel MALIC




Yn ogystal â nodi gwahaniaethau rhwng grwpiau poblogaeth o ran prisiau a delir am alcohol, mae Ffigur 5 a Ffigur 6 hefyd yn dangos amrywiant o ran prisiau rhwng cynhyrchion. Dangosir y gwahaniaethau hyn ymhellach yn Tabl 4, sy'n nodi cyfran amcangyfrifedig yr unedau alcohol a werthir am lai na 50c yr uned. Mae hyn yn dangos mai ychydig iawn o alcohol a werthir yn y fewnfasnach am lai na'r trothwy hwn (llai nag 1% o'r holl werthiannau), ond bod cyfran sylweddol o'r alcohol yn yr allfasnach (46%) yn cael ei werthu am lai na'r trothwy, ac yn gyffredinol caiff 37% o'r holl unedau a yfir eu prynu am lai na 50c. Seidr (73%), cwrw (62%) a gwirodydd (60%) yn yr allfasnach yw'r cynhyrchion a werthir amlaf am lai na 50c yr uned. Ond o'u hystyried ochr yn ochr â'r holl werthiannau, fel y dangosir yn Ffigur 7, gwelwn fod mwy o unedau o win yn yr allfasnach yn cael eu gwerthu o dan y lefel hon nag unrhyw ddiod arall, yn gyffredinol.

### Tabl 4: Cyfran yr alcohol a gaiff ei brynu am lai na 50c yr uned yn ôl math o ddiod, sianel a math o yfwr


| | | **Yr holl yfwyr** | **Cymedrol** | **Peryglus** | **Niweidiol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **All-fasnach** | Cwrw | 61.7% | 46.9% | 62.6% | 69.9% |
| | Seidr | 73.1% | 53.4% | 72.7% | 85.3% |
| | Gwin | 31.9% | 25.0% | 30.7% | 36.0% |
| | Gwirodydd | 60.4% | 48.9% | 59.8% | 63.5% |
| | Diodydd parod i'w hyfed | 0.6% | 0.6% | 0.7% | 0.6% |
| **Mewn-fasnach** | Cwrw | 1.4% | 0.6% | 1.9% | 1.4% |
| | Seidr | 3.4% | 1.1% | 5.1% | 3.7% |
| | Gwin | 2.0% | 0.4% | 2.6% | 4.1% |
| | Gwirodydd | 5.3% | 4.8% | 5.8% | 5.6% |
| | Diodydd parod i'w hyfed | 0.2% | 0.3% | 0.0% | 0.0% |
| | | | | | |
| **Yr holl fathau o alcohol** | | 36.7% | 22.3% | 36.0% | 46.3% |

**Ffigur 7: Cyfran yr unedau a brynir am lai na 50c yr uned yn ôl math o ddiod a sianel**




Mae Ffigur 8 yn dangos cyfanswm yr unedau a werthir y naill ochr i'r trothwy o 50c yr uned ar gyfer pob categori o yfwyr. Yn gyffredinol mae yfwyr cymedrol yn prynu llai na chwarter (22%) o'u halcohol am lai na 50c yr uned, ond ar gyfer yfwyr niweidiol, bron hanner (46%) yw'r ffigur hwn.

**Ffigur 8: Cyfran a chyfanswm yr unedau a brynir am lai na 50c yr uned yn ôl math o yfwr**




## Llinell sylfaen y marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol

Yn gyffredinol, mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod 777 o farwolaethau a 35,637 o dderbyniadau i ysbytai bob blwyddyn yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan alcohol. Mae Tabl 5 yn rhannu'r rhain yn ôl cyflwr, gan ddangos bod mwy o bobl yn marw o ganser o ganlyniad i yfed nag o glefyd yr afu, neu unrhyw achos unigol arall. O ran derbyniadau i ysbytai mae'r patrwm yn eithaf gwahanol, gan mai'r cyfranwyr mwyaf i lwyth cyffredinol alcohol o ran derbyniadau i ysbytai yw pwysedd gwaed uchel a chyflyrau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar alcohol. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn dangos yr amcangyfrifir bod alcohol yn cael effaith amddiffynnol ar gyfer diabetes, strôc a chyflyrau cardiofasgwlaidd eraill. Mae'r effeithiau hyn yn destun llawer o ddadlau yn y llenyddiaeth academaidd [5–8], sydd efallai'n gwneud amcangyfrifon o lwyth y niwed oddi wrth alcohol ac effeithiolrwydd polisïau ar alcohol fel y'u modelir gan Fodel Polisi Alcohol Sheffield, sy'n cynnwys yr effeithiau hyn, yn geidwadol. Mae Ffigur 9 yn dangos y patrymau hyn yn weledol, gan eithrio cyflyrau amddiffynnol er mwyn hwyluso ei ddehongli.

**Tabl 5: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai bob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cyflwr**

| | Marwolaethau bob blwyddyn y gellir eu priodoli i alcohol | Derbyniadau i ysbytai bob blwyddyn y gellir eu priodoli i alcohol |
|---|---|---|
| **Clefyd yr afu** | 369 | 4,288 |
| **Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd defnydd o alcohol** | 29 | 9,307 |
| **Gwenwyniad alcohol** | 22 | 1,736 |
| **Cyflyrau eraill y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl i alcohol** | 8 | 701 |
| **Canserau** | 342 | 2,169 |
| **Pwysedd gwaed uchel** | 22 | 13,345 |
| **Strôc** | -27 | -227 |
| **Cyflyrau cardiofasgwlaidd eraill** | -215 | 595 |
| **Diabetes (math II)** | -26 | -2,575 |
| **Cyflyrau cronig eraill** | 86 | 2,484 |
| **Damweiniau traffig ar y ffordd** | 29 | 533 |
| **Cwympiadau** | 47 | 1,689 |
| **Anafiadau eraill** | 92 | 1,593 |
| | | |
| **Cyfanswm** | 777 | 35,637 |

**Ffigur 9: Achosion cyfrannol marwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol (ac eithrio cyflyrau amddiffynnol)**




Rhoddir amcangyfrifon o'r amrywiant ym maich alcohol ar iechyd yn ôl grŵp yfwyr yn Tabl 6. Mae'r rhain yn dangos graddiant sylweddol iawn mewn niwed. Mae yfwyr peryglus a niweidiol yn dioddef baich niwed sylweddol o ganlyniad i yfed – ar amcangyfrif, 685 o farwolaethau a 15,421 o dderbyniadau i ysbytai bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr niweidiol.

**Tabl 6: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai bob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl math o yfwr**


| | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen marwolaethau am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 41 | -6 | 66 | 685 |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 1,866 | 416 | 3,861 | 15,421 |

Mae Tabl 7 yn dangos bod graddiant amddifadedd sylweddol mewn niwed hefyd. Er gwaethaf y ffaith fod yfwyr yn y grwpiau mwyaf difreintiedig yn yfed llai ar gyfartaledd, mae bron teirgwaith cynifer o farwolaethau a dwywaith cynifer o dderbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr yn y grŵp hwn ag sydd yn y grŵp lleiaf difreintiedig. Yr enw cyffredin ar y ffenomenon hwn yw 'Paradocs Niwed Alcohol'. Dangosir yr anghydraddoldeb hwn mewn niwed yn weledol yn Ffigur 10.

**Tabl 7: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai bob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl cwintel MALIC**


| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen marwolaethau am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 28 | 30 | 35 | 45 | 75 |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 1,390 | 1,542 | 1,741 | 2,124 | 2,823 |

**Ffigur 10: Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol niwed y gellir ei briodoli i alcohol**




Mae Ffigur 11 a Tabl 8 yn dangos y graddiannau cyfun mewn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ar draws grwpiau amddifadedd a grwpiau yfwyr. Mae hyn yn nodi bod effeithiau negyddol alcohol ar iechyd wedi'u crynhoi'n anghymesur ymysg yfwyr trwm yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf.

### Ffigur 11: Amcangyfrif o'r marwolaethau bob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl grŵp yfwyr a chwintel MALIC




### Tabl 8: Amcangyfrif o'r marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai bob blwyddyn a achosir gan alcohol yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cymedrol** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | -4 | -6 | -7 | -7 | -4 |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 272 | 329 | 381 | 489 | 661 |
| | | | **Peryglus** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 46 | 57 | 72 | 77 | 97 |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 2,787 | 3,255 | 3,879 | 4,505 | 6,192 |
| | | | **Niweidiol** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 444 | 444 | 512 | 804 | 1,502 |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | 11,042 | 10,932 | 12,330 | 18,127 | 29,683 |

Yn olaf, mae Tabl 9 yn dangos yr amcangyfrifir bod 2.9% o'r holl farwolaethau ymysg oedolion yng Nghymru yn 2016 wedi'u hachosi'n uniongyrchol gan alcohol. Mae'r gyfran hon yn uwch ymysg dynion nag ymysg menywod (3.8% o gymharu ag 1.9%) ac yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai lleiaf difreintiedig (5.0% o gymharu â 2.2%). Mae alcohol hefyd yn un o brif achosion marwolaethau mewn grwpiau oedran iau; mae oddeutu 1 ym mhob 8 (12.4%) o farwolaethau ymysg oedolion iau na 55 oed yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan alcohol[2].

**Tabl 9: Cyfraniad alcohol i'r holl farwolaethau yn ôl rhywedd ac amddifadedd**

| | Cyfran yr holl farwolaethau y gellir ei phriodoli i alcohol |
|---|---|
| **Poblogaeth** | 2.9% |
| **Dynion** | 3.8% |
| **Menywod** | 1.9% |
| **C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)** | 2.2% |
| **C2 MALIC** | 2.1% |
| **C3 MALIC** | 2.5% |
| **C4 MALIC** | 3.2% |
| **C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)** | 5.0% |
| **18-24 oed** | 12.7% |
| **25-34 oed** | 9.9% |
| **35-54 oed** | 12.8% |
| **55 oed a hŷn** | 2.0% |

## Effeithiau a fodelir isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant


Dangosir amcangyfrif o effaith polisi isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant ar alcohol yn Tabl 10 a Tabl 11. Yn gyffredinol byddai'r polisi yn lleihau faint o alcohol a gaiff ei yfed 3.6% am bob yfwr bob blwyddyn, sy'n gyfwerth â 22 uned yn llai bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, byddai yfwyr yn gwario £8.30 y flwyddyn yn fwy gydag isafbris uned o 50c. Fodd bynnag, nid yw'r effeithiau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth. Bach iawn yw'r effaith ar yfwyr cymedrol. Amcangyfrifir y byddai 2.4 uned yn llai o alcohol yn cael eu hyfed bob blwyddyn, sy'n gyfwerth ag oddeutu peint o gwrw neu wydraid mawr o win, ac y byddai pob yfwr yn gwario £3 yn fwy. Mewn gwrthgyferbyniad, byddai'r newid mwyaf yn ymddygiad yfed yr yfwyr niweidiol. Amcangyfrifir y byddent yn yfed 269 o unedau yn llai bob blwyddyn, sy'n gyfwerth â 110 o beintiau o gwrw neu 30 potel o win, ac y byddai pob yfwr yn gwario £48 yn fwy. Dangosir y patrymau hyn yn Ffigur 12.

[2] Dylid nodi bod nifer absoliwt y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ar ei huchaf ymysg pobl 55 oed a hŷn, ond mae cyfradd marwolaethau o achosion eraill yn sylweddol uwch yn y grŵp hwn ac felly mae alcohol yn gyfrifol am gyfran lai o'r cyfanswm.

### Tabl 10: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant yn ôl math o yfwr

| | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn)** | 610 | 211 | 1,236 | 3,924 |
| **Faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn) ar ôl yr ymyriad** | 588 | 208 | 1,199 | 3,655 |
| **Newid absoliwt** | -22.0 | -2.4 | -37.4 | -268.7 |
| **Newid cymharol** | -3.6% | -1.1% | -3.0% | -6.8% |
| | | | | |
| **Llinell sylfaen gwariant ar alcohol (bob blwyddyn)** | £607 | £276 | £1,209 | £2,882 |
| **Gwariant bob blwyddyn ar ôl yr ymyriad** | £615 | £279 | £1,227 | £2,930 |
| **Newid absoliwt** | £8.3 | £3.0 | £17.6 | £47.7 |
| **Newid cymharol** | 1.4% | 1.1% | 1.5% | 1.7% |

### Ffigur 12: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant yn ôl math o yfwr





O edrych ar draws y sbectrwm amddifadedd, gwelwn raddiant eglur yn yr effaith, wrth i isafbris uned o 50c arwain at leihad cryn dipyn yn fwy o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed yn y grwpiau mwyaf difreintiedig. Yn benodol, amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn yfed 69 o unedau yn llai bob blwyddyn, gan arwain at wario £7 yn llai ar alcohol ar gyfartaledd.

**Tabl 11: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant yn ôl amddifadedd**

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn)** | 648 | 649 | 598 | 589 | 546 |
| **Faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn) ar ôl yr ymyriad** | 647 | 639 | 579 | 566 | 477 |
| **Newid absoliwt** | -1.9 | -9.9 | -18.4 | -23.9 | -68.7 |
| **Newid cymharol** | -0.3% | -1.5% | -3.1% | -4.1% | -12.6% |
| | | | | | |
| **Llinell sylfaen gwariant ar alcohol (bob blwyddyn)** | £780 | £676 | £563 | £515 | £441 |
| **Gwariant bob blwyddyn ar ôl yr ymyriad** | £793 | 689 | 573 | 523 | 434 |
| **Newid absoliwt** | £13.0 | £13.2 | £9.7 | £8.6 | -£6.8 |
| **Newid cymharol** | 1.7% | 1.9% | 1.7% | 1.7% | -1.5% |

**Ffigur 13: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant yn ôl amddifadedd**




Yn olaf, mae Tabl 12 a Tabl 13 yn dangos yr effeithiau ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a gwariant ar draws grwpiau yfwyr a chwintelau amddifadedd, gan nodi pa mor serth yw graddiant amddifadedd o ran yr effaith ar faint o alcohol a gaiff ei yfed. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn dangos bod y lleihad mewn gwariant ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig wedi'i grynhoi ymysg yfwyr peryglus ac, yn arbennig, yfwyr niweidiol, wrth i yfwyr niweidiol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wario mwy na £200 yn llai ar alcohol bob blwyddyn.

### Tabl 12: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar faint o alcohol a gaiff ei yfed yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymedrol** | | | | |
| **Llinell sylfaen faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn)** | 231 | 211 | 213 | 200 | 194 |
| **Faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn) ar ôl yr ymyriad** | 232 | 210 | 212 | 195 | 187 |
| **Newid absoliwt** | 0.3 | -0.5 | -1.5 | -4.3 | -6.9 |
| **Newid cymharol** | 0.1% | -0.2% | -0.7% | -2.2% | -3.6% |
| | **Peryglus** | | | | |
| **Llinell sylfaen faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn)** | 1,228 | 1,245 | 1,262 | 1,219 | 1,216 |
| **Faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn) ar ôl yr ymyriad** | 1,224 | 1,221 | 1,225 | 1,162 | 1,114 |
| **Newid absoliwt** | -3.6 | -24.0 | -37.2 | -56.9 | -102.7 |
| **Newid cymharol** | -0.3% | -1.9% | -2.9% | -4.7% | -8.4% |
| | **Niweidiol** | | | | |
| **Llinell sylfaen faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn)** | 3,892 | 4,168 | 3,244 | 4,081 | 4,367 |
| **Faint o alcohol a gaiff ei yfed (unedau/blwyddyn) ar ôl yr ymyriad** | 3,866 | 4,090 | 3,050 | 3,890 | 3,248 |
| **Newid absoliwt** | -26.4 | -78.0 | -193.7 | -191.8 | -1,118.9 |
| **Newid cymharol** | -0.7% | -1.9% | -6.0% | -4.7% | -25.6% |

**Tabl 13: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar wariant yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd**

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymedrol | | |
| **Llinell sylfaen gwariant ar alcohol (y flwyddyn)** | £375 | £296 | £265 | £228 | £198 |
| **Gwariant bob blwyddyn ar ôl yr ymyriad** | £378 | £299 | £269 | £230 | £200 |
| **Newid absoliwt** | £3.8 | £3.6 | £3.4 | £1.9 | £2.1 |
| **Newid cymharol** | 1.0% | 1.2% | 1.3% | 0.8% | 1.1% |
| | | | Peryglus | | |
| **Llinell sylfaen gwariant ar alcohol (y flwyddyn)** | £1,483 | £1,209 | £1,117 | £1,099 | £981 |
| **Gwariant bob blwyddyn ar ôl yr ymyriad** | £1,508 | £1,230 | £1,137 | £1,111 | £980 |
| **Newid absoliwt** | £25.4 | £21.0 | £20.1 | £12.0 | -£1.1 |
| **Newid cymharol** | 1.7% | 1.7% | 1.8% | 1.1% | -0.1% |
| | | | Niweidiol | | |
| **Llinell sylfaen gwariant ar alcohol (y flwyddyn)** | £3,060 | £3,646 | £2,380 | £2,455 | £2,715 |
| **Gwariant bob blwyddyn ar ôl yr ymyriad** | £3,148 | £3,766 | £2,436 | £2,562 | £2,508 |
| **Newid absoliwt** | £87.6 | £119.9 | £56.0 | £106.8 | -£206.2 |
| **Newid cymharol** | 2.9% | 3.3% | 2.4% | 4.4% | -7.6% |

## Effeithiau a fodelir isafbris uned o 50c ar iechyd

Dangosir amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar farwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol, yn gyffredinol ac yn ôl math o yfwr, yn Tabl 14. Mae hwn yn dangos bod yr amcangyfrif o'r lleihad yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn fwy na'r lleihad o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed (8.5% o gymharu â 3.6%) oherwydd y ffaith fod y polisi yn targedu'n effeithiol y grwpiau hynny sydd â'r risg mwyaf o niwed. Gellir gweld hyn o'r ffaith fod mwy na dau draean (69%) o'r lleihad yn nifer y marwolaethau bob blwyddyn oherwydd alcohol ymysg yfwyr niweidiol, sy'n ddim ond 3% o'r boblogaeth. Oherwydd y gwahaniaethau sylweddol yng nghyfran y boblogaeth ym mhob un o'r grwpiau yfwyr, mae'n addysgiadol cymharu cyfraddau niwed, yn hytrach na meintiau cyffredinol. Caiff y rhain eu nodi yn Tabl 15 a Tabl 16 a'u dangos yn weledol yn Ffigur 14 a Ffigur 15.

Ar ôl cyfrifo am feintiau poblogaeth gwahanol, mae'r graddau y mae effeithiau isafbris uned ar iechyd wedi'u crynhoi ymysg yr yfwyr trymaf yn dod yn fwy amlwg byth. Ar gyfer pob 100,000 o yfwyr niweidiol, amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn osgoi 56 o farwolaethau a 688 o dderbyniadau i ysbytai bob blwyddyn.


### Tabl 14: Amcangyfrif o effeithiau isafbris uned o 50c ar iechyd yn ôl math o yfwr

| | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn** | 777 | -77 | 297 | 557 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ar ôl yr ymyriad** | 711 | -77 | 277 | 512 |
| **Newid absoliwt** | -65.9 | 0.0 | -20.2 | -45.7 |
| **Newid cymharol** | -8.5% | 0.0% | -6.8% | -8.2% |
| | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn** | 35,637 | 5,735 | 17,350 | 12,552 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol ar ôl yr ymyriad** | 34,356 | 5,604 | 16,760 | 11,992 |
| **Newid absoliwt** | -1,281 | -131 | -590 | -560 |
| **Newid cymharol** | -3.6% | -2.3% | -3.4% | -4.5% |

### Tabl 15: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar farwolaethau a chyfraddau derbyn i ysbytai yn ôl math o yfwr

| | Yr holl yfwyr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 41 | -6 | 66 | 685 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 37 | -6 | 62 | 629 |
| **Newid absoliwt** | -3.5 | 0.0 | -4.5 | -56.2 |
| **Newid cymharol** | -8.5% | 0.0% | -6.8% | -8.2% |
| | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 1,866 | 416 | 3,861 | 15,421 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 1,799 | 406 | 3,730 | 14,734 |
| **Newid absoliwt** | -67 | -10 | -131 | -688 |
| **Newid cymharol** | -3.6% | -2.3% | -3.4% | -4.5% |

### Ffigur 14: Effeithiau cymharol isafbris uned o 50c ar farwolaethau a derbyniadau i ysbytai yn ôl math o yfwr





O ran effeithiau isafbris uned ar faint o alcohol a gaiff ei yfed, gwelwn raddiant economaidd-gymdeithasol amlwg yn yr effeithiau ar niwed, gyda 12.3 yn llai o farwolaethau bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr yn y grŵp mwyaf difreintiedig, o gymharu â 0.1 yn y grŵp lleiaf difreintiedig.

### Tabl 16: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar farwolaethau a chyfraddau derbyn i ysbytai yn ôl amddifadedd

| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 28 | 30 | 35 | 45 | 75 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 28 | 29 | 32 | 42 | 62 |
| **Newid absoliwt** | -0.1 | -0.9 | -2.7 | -3.6 | -12.3 |
| **Newid cymharol** | -0.3% | -3.1% | -7.7% | -8.0% | -16.5% |
| | | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 1,390 | 1,542 | 1,741 | 2,124 | 2,823 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 1,388 | 1,522 | 1,684 | 2,031 | 2,619 |
| **Newid absoliwt** | -1.8 | -19.7 | -57.4 | -93.4 | -203.3 |
| **Newid cymharol** | -0.1% | -1.3% | -3.3% | -4.4% | -7.2% |

**Ffigur 15: Effeithiau cymharol isafbris uned o 50c ar ganlyniadau iechyd yn ôl amddifadedd**




Mae Tabl 17 a Tabl 18 yn rhannu'r amcangyfrif o effeithiau polisi isafbris uned o 50c ar iechyd yn ôl grŵp yfwyr a chwintel amddifadedd.

**Tabl 17: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar gyfraddau marwolaethau yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd**

| | C1 MALlC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALlC | C3 MALlC | C4 MALlC | C5 MALlC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cymedrol** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | -4 | -6 | -7 | -7 | -4 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | -4 | -6 | -7 | -7 | -4 |
| **Newid absoliwt** | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -0.1 | 0.1 |
| **Newid cymharol** | -0.4% | 0.0% | 0.4% | 1.4% | -3.4% |
| | | | **Peryglus** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 46 | 57 | 72 | 77 | 97 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 46 | 56 | 68 | 69 | 82 |
| **Newid absoliwt** | 0.2 | -1.6 | -4.5 | -7.5 | -15.1 |
| **Newid cymharol** | 0.5% | -2.8% | -6.2% | -9.8% | -15.6% |
| | | | **Niweidiol** | | |
| **Llinell sylfaen marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 444 | 444 | 512 | 804 | 1,502 |
| **Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 440 | 432 | 475 | 759 | 1,259 |
| **Newid absoliwt** | -3.9 | -11.7 | -37.0 | -44.6 | -242.8 |
| **Newid cymharol** | -0.9% | -2.6% | -7.2% | -5.6% | -16.2% |

**Tabl 18: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar gyfraddau derbyn i ysbytai yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd**


| | C1 MALIC (lleiaf difreintiedig) | C2 MALIC | C3 MALIC | C4 MALIC | C5 MALIC (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymedrol** | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 272 | 329 | 381 | 489 | 661 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 273 | 328 | 376 | 473 | 629 |
| **Newid absoliwt** | 1.1 | -1.3 | -4.4 | -15.9 | -31.7 |
| **Newid cymharol** | 0.4% | -0.4% | -1.2% | -3.2% | -4.8% |
| | **Peryglus** | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 2,787 | 3,255 | 3,879 | 4,505 | 6,192 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 2,785 | 3,208 | 3,755 | 4,285 | 5,756 |
| **Newid absoliwt** | -1.5 | -46.3 | -124.7 | -219.5 | -435.1 |
| **Newid cymharol** | -0.1% | -1.4% | -3.2% | -4.9% | -7.0% |
| | **Niweidiol** | | | | |
| **Llinell sylfaen derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn am bob 100,000 o yfwyr** | 11,042 | 10,932 | 12,330 | 18,127 | 29,683 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol am bob 100,000 o yfwyr ar ôl yr ymyriad** | 10,991 | 10,774 | 11,769 | 17,345 | 27,186 |
| **Newid absoliwt** | -50.6 | -158.0 | -560.4 | -782.1 | -2496.9 |
| **Newid cymharol** | -0.5% | -1.4% | -4.5% | -4.3% | -8.4% |

Yn olaf, mae Tabl 19 a Ffigur 16 yn darlunio effeithiau isafbris uned o 50c ar iechyd mewn ffordd wahanol, gan ddangos y gyfran o farwolaethau a derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol a gâi eu hosgoi gan y polisi ym mhob is-grŵp o'r boblogaeth yfwyr. Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith fod y polisi yn dargededig iawn, gyda 69% o'r lleihad yn nifer y marwolaethau ymysg yfwyr niweidiol, sy'n ddim ond 4 o bob 100 o yfwyr.

### Tabl 19: Dosbarthiad effeithiau amcangyfrifedig isafbris uned o 50c ar iechyd

| | | Poblogaeth yfwyr | Effeithiau isafbris uned o 50c: Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a gâi eu hosgoi | Effeithiau isafbris uned o 50c: Derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol a gâi eu hosgoi |
|---|---|---|---|---|
| **Cymedrol** | | **72%** | **0%** | **10%** |
| **Peryglus** | | **24%** | **31%** | **46%** |
| **Niweidiol** | | **4%** | **69%** | **44%** |
| **C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)** | | **22%** | **1%** | **1%** |
| **C2 MALIC** | | **21%** | **6%** | **6%** |
| **C3 MALIC** | | **21%** | **17%** | **18%** |
| **C4 MALIC** | | **19%** | **20%** | **26%** |
| **C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)** | | **16%** | **57%** | **49%** |
| **Cymedrol** | **C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)** | **15.6%** | **-0.1%** | **-0.3%** |
| | **C2 MALIC** | **15.0%** | **0.0%** | **0.3%** |
| | **C3 MALIC** | **15.2%** | **0.1%** | **1.0%** |
| | **C4 MALIC** | **14.0%** | **0.4%** | **3.3%** |
| | **C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)** | **12.5%** | **-0.5%** | **5.9%** |
| **Peryglus** | **C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)** | **5.9%** | **-0.4%** | **0.1%** |
| | **C2 MALIC** | **5.3%** | **2.5%** | **3.7%** |
| | **C3 MALIC** | **5.2%** | **6.7%** | **9.7%** |
| | **C4 MALIC** | **4.2%** | **9.1%** | **13.7%** |
| | **C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)** | **2.9%** | **12.7%** | **18.8%** |
| **Niweidiol** | **C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)** | **1.0%** | **1.1%** | **0.7%** |
| | **C2 MALIC** | **1.0%** | **3.3%** | **2.3%** |
| | **C3 MALIC** | **0.9%** | **9.7%** | **7.6%** |
| | **C4 MALIC** | **0.8%** | **10.4%** | **9.3%** |
| | **C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)** | **0.6%** | **45.0%** | **23.8%** |

**Ffigur 16: Dosbarthiad effeithiau amcangyfrifedig isafbris uned o 50c ar iechyd yn ôl grŵp yfwyr ac amddifadedd**




# Y camau nesaf:

Mae'r adroddiad cryno hwn wedi darparu diweddariad ar y canlyniadau iechyd a ddeuai o isafbris uned wedi'i osod ar enghraifft o 50c yn unig. Cafodd y lefel hon ei defnyddio yma, gan mai hi oedd y lefel enghreifftiol a ddefnyddiwyd yn adroddiad 2014.

Cam nesaf y dadansoddiad yw darparu adroddiad llawn yn nodi'r ystod lawn o bolisïau isafbris uned ac yn cynnwys canlyniadau o ran troseddu a'r gweithle. Byddwn hefyd yn modelu effeithiau codiadau mewn trethi er mwyn asesu'r atebion i'r 3 chwestiwn ymchwil a nodir yn y Cyflwyniad. Bydd yr adroddiad hwn yn dilyn yn gynnar yn 2018.

# Cyfeiriadau


1. Meng Y, Sadler S, Gell L, Holmes J, Brennan A. *Model-Based Appraisal of Minimum Unit Pricing for Wales: An Adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 3*. Caerdydd; 2014. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141208-model-based-appraisal-minimum-unit-price-alcohol-en.pdf.

2. Meng Y, Brennan A, Purshouse R, et al. Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK-A pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. *J Health Econ*. 2014;34:96-103. doi:10.1016/j.jhealeco.2013.12.006.

3. Purshouse R, Meng Y, Rafia R, Brennan A, Meier PS. *Model-Based Appraisal of Alcohol Minimum Pricing and off-Licensed Trade Discount Bans in Scotland: A Scottish Adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 2*. Sheffield; 2009.

4. Curtis L, Burns A. *Unit Costs of Health and Social Care 2016*. Canterbury; 2016. Ar gael ar: http://www.pssru.ac.uk/project-pages/unit-costs/unit-costs-2016/.

5. Fekjaer HO. Alcohol-a universal preventive agent? A critical analysis. *Addiction*. 2013;108(12):2051-7. doi:10.1111/add.12104.

6. Stockwell T, Zhao J, Panwar S, Roemer A, Naimi T, Chikritzhs T. Do “Moderate” Drinkers Have Reduced Mortality Risk? A Systematic Review and Meta-Analysis of Alcohol Consumption and All-Cause Mortality. *J Stud Alcohol Drugs*. 2016. Ar gael ar: http://www.jsad.com/doi/abs/10.15288/jsad.2016.77.185.

7. Naimi TS, Stockwell T, Zhao J, et al. Selection biases in observational studies affect associations between “moderate” alcohol consumption and mortality. *Addiction*. 2017;112(2):207-214. doi:10.1111/add.13451.

8. Britton A, Bell S. The protective effects of moderate drinking: lies, damned lies, and… selection biases? *Addiction*. 2017;112(2):218-219. doi:10.1111/add.13585.

9. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. *Response to Consultation on the National Statistics Definition of Alcohol-Related Deaths*.; 2017. Ar gael ar: https://consultations.ons.gov.uk/health-and-life-events/alcohol-mortality-definition-review/.